Cyngor Cymuned **LLANBRYNMAIR** Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 3ydd Mis Ionawr 2024

**Presennol**
Cynghorwyr – E Davies (Cadeirydd), D Jones, F Cauley, B Jones, I Edwards, S Evans, P Jones, G Davies a G Mitchell (Powys)

**Ymddiheuriadau** - E Lewis, R Ashton

Cynnigiodd y Cadeirydd, E Davies, croeso cynnes i bawb

**Cyflwyniadau –** Cyng. Elwyn Vaughan i trafod prosiect hybu'r Gymraeg trwy amryw o weithgareddau dros 2 flynnedd yn cynnwys gwasanaethau cyfiethu i'r Cyngor

**Datganiadau diddordeb** –

**Cytuno Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 6ed Rhagfyr 2023**
Pawb yn gytun

**Materion yn codi**

1. Parcio ceir ym mhentref Llan - S Reast wedi cwrdd a Tony Evans ar y safle ac yn disgwyl amncangyfrif
2. Cais am llwybr seiclo o gwmpas y Cae Cymunedol - Fydd gwaith torri'r coed yn cychwyn yr wythnos yma. Cytynwyd i ofyn am tenders eto i torri'r gwair ac i neud y llinellau gwyn. R Ashton i archebu coed fawydd. S Reast i trefnu diwrnod plannu'r sietyn
3. Cyfleusterau cyhoeddus - Nid oes yna dyfnbris gan unrhyw adeiladwr eto. Cytynwyd mewn egwyddor i trefnu amserlen o waith yn cychwyn efo'r pethau pwysicach sydd angen eu wneud ar frys. S Reast wedi derbyn copi o'r prydles gan Powys sydd yn cadarnhau mae cyfrifoldeb Cyngor Llanbrynmair ydy'r cynal a chadw
4. Hysbysfyrdd - Disgwylir i hysbysfwrdd newydd Bont cyrraedd ymhen pythefnos. I Edwards wedi trwsio caead hysbysfwrdd Talerddig
5. Offer diffibrilwyr yn ardal Llanbrynmair - Cytynwyd i symud diffibrilwr Bont pan ddaw'r hysbysfwrdd newydd a gwneud y dau beth ar yr un pryd
6. Ystyried offer newydd yn y Cae Chwarae - Mae'r cais loteri wedi ei wneud. S Reast i ceisio cysylltu ag AlTechnical eto am dyfnbris i'r CCTV
7. Sietyn wrth Pont Bel – S Reast i ysgrifennu at perchnogion Ty'n Ddol eto
8. "Concealed entrance", Maes yr Efail – B Jones a R Ashton i helpu gosod postyn metal yn ei le ar gyfer drych
9. Station House, Talerddig – G Mitchell i gwneud ymholiadau ynglyn a cyfarfod arall ar y safle – dim diweddariad
10. Biniau ar gwaelod ffordd Bryneinty – S Reast wedi ysgrifennu at Powys ac wedi derbyn ymateb yn dweud fod y mater o dan ystyriaeth
11. Lloches Bws Dolfach – Bydd cyfarfod ar y safle gyda'r contractwyr ar y 17fed o Ionawr. D Jones, E Lewis, ac efallai I Edwards a P Jones i fod yn bresennol
12. Tocio'r shetyn a mieri yn Bont – Gwaith ar y gweill gan Josh Reast – Dim diweddariad
13. Bainc yn Dolfach –S Reast i cysylltu a Powys eto am caniatad i osod y bainc. Tony Evans wedi rhoi dyfnbris o £250 - £300 am gwneud y gwaith

14. Sied wedi torri yn y cae chwarae – Rhaid aros am tywydd sych i symud y sied
15. Ymateb i'r rali – Cyflwynwyd ymateb gan trefnwyr y rali. Cytynwyd i'w drafod yn y cyfarfod nesaf pan fydd pawb wedi cael siawns i'w ddarllen
16. Llwybr o Dolfach i Llanbrynmair ac i troiad Tafolwern – Cytynwyd i drafod hyn pan ddaw Russel George AS i cwrdd a'r Cyngor
17. Sbwriel yn y Parc – Cynnigwyd y syniad o gofyn i'r tim 'probation' i ddod i glirio. Mae yna ambell i safle arall i ystyried o fewn yr un gweithgaredd ee: rhwng Talerddig a Bont
18. Arwyddion cyflymder wrth croesfan Bont Dolgadfan – Mae'r arwyddion yn anghyson, Mae G Mitchell wedi trafod hwn efo Powys
19. Cerbyd ar llinellau gwyn wrth troiad B4518 a'r A470 – Angen monitro'r sefyllfa
20. Ffens o amgylch y Pump House yn Bont – S Reast i ysgrifennu at Dwr Cymru
21. Gosod y praecept – Wedi astudio'r cyllid, cytynwyd i codi'r precept o £14,000.00 i £15,000.00

**Materion ffyrdd**

- Materion ar yr A470 – S Reast i wahodd Russel George AS i drafod y canlynol: 1. Ffordd yn disgyn wrth Dolgoch a'r effaith o cau hwnw ar y ffordd o Talerddig i Bont tra fydd gwaith ar y gweill. 2. Cyflymder traffig ar gornel Wynnstay. 3. Cyflymder traffig yn Nhalerddig. 4. Llwybr o Dolfach i Llanbrynmair ac ymlaen i Tafolwern
- Biniau Halen – Rhaid paratoi at tywydd drwg. S Reast yn gofyn i trigolion cysylltu gyda hi yn uniongyrchol i ofyn am halen yn y safleoedd penodol
- Goleuadau – Mae angen tocio'r coed o gwmpas golau cyferbyn a Pengeulan. Golau wrth troiad Bryncoch yn fflachio. S Reast wedi adrodd y mater i Powys
- Fuodd E Davies a G Mitchell ar daith i trafod y materion ffyrdd canlyonl: 1. Cerrig gwyn a pyst ar ymyl ffordd Pandy, 2. Ffordd yn disgyn islaw Lluest. 3. Draen wrth yr Hen Gapel. 4. Cyflwr y ffordd pen draw Pandy/Tafolog. 5. Gwreiddau ar ochr y ffodd wrth Penfilltir, Bont a 6. Cyflwr ffordd Cwmcarnedd. Ers hyny, mae G Mitchell wedi hefyd cwrdd a Aled Jones o Powys i ddangos y materion iddo fo. Mae'r draen wrth yr Hen Gapel yn flaenoriaeth.
- Ffordd yn disgyn wrth Craig yr Henffordd – Dim diweddariad

**Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)**

**Gohebiaeth**

**Cynllunio**

- 23/1719/FUL Siting of 3 cabins, installation of sewage treatment plant and associated works, Land At Hafodwen Newydd, Talerddig, Llanbrynmair SY19 7AW – Cafwyd pleidlais gyda'r canlyniad i wrthwynebu'r cais achos y pryder am gor-ddatblygiaeth. B Jones, F Cauley, E Davies yn ymatal, I Edwards, S Evans, G Davies a P Jones yn gwrthwynebu. D Jones yn cefnogi

**Cyfriflen a balans ariannol**

Ar gael ar 26/12/2023

| | |
|---|---|
| Cyfrif Cyfredol | £7317.89 |
| Cyfrif Cadw | £2,912.99 |
| Cyfanswm | £10230.90 |
| Sieciau heb eu cyflwyno | £600.00 |
| Balans ar gael | £9630.88 |

**Ceisiadau a thaliadau ariannol**

| **Dyddiad cytunwyd** | **Eitem** | **Cyfans wm** | **Rhif y cheque** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|---|
| 03/01/24 | Cyflog y Clerc | £368.00 | | |
| 03/01/24 | Treth ac NI ar cyflog y Clerc (Gorffenaf) | £92.00 | | |
| 06/12/23 | Apel Cronfa Cyfle I Bawb yr Urdd | £100.00 | | Wedi talu o mis Rhagfyr |
| 03/01/24 | DRE & Co. Gwasanaethau PAYE | £77.40 | | |
| 03/01/24 | E.ON Next | £17.85 | | |
| 03/01/24 | Arfon Hughes - Gwasanaethau cyfieithu | £130.00 | | |
| 03/01/24 | Hafren Dyfrdwy | £791.58 | | |
| 03/01/24 | Archwillio Cymru – Awdit 2016/17 | £200.00 | | |
| 03/01/24 | Archwilio Cymru – Awdit 2017/18 | £205.00 | | |
| 03/01/24 | Archwilio Cymru – Awdit 2019/20 | £200.00 | | |
| 03/01/.24 | Archwilio Cymru – Awdit 2020/21 | £200.00 | | |

**Unrhyw fater arall**

**Eitemau ar gyfer yr agenda nesa**

- I Edwards – Gridiau gwartheg rhwng Talerddig a Cwmcalch
- I Edwards – Baw ar ffordd Pandy
- P Jones – Peipen o dan ffordd Ystradfawr

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher 7fed Chwefror 2024**
**Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Fercher, 6ed Mawrth 2024**

Sarah Reast
Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair